# Ein cynullun corfforaethol 2024–2026

Ebrill 2024

Cyngor Nyrsio a Bydwreigiaeth

# Rhagair





## Cyd-destun Strategol

Mae'r 12 mis diwethaf yn yr NMC wedi bod yn ddarlun cymysg o gamau rheoleiddio pwysig a heriau sefydliadol sylweddol. Gwnaethom ymgysylltu'n gynhwysfawr â rhanddeiliaid i archwilio a ddylid rheoleiddio arfer uwch ymhellach, gan arwain at y penderfyniad i ddatblygu dulliau rheoleiddio ychwanegol, cyhoeddi ein safonau rhaglen addysg cyn cofrestru wedi'u diweddaru a'n hadroddiad Sbotolau cyntaf erioed i rannu mewnwelediad i helpu i wella diogelwch ym maes iechyd a gofal cymdeithasol. Gwnaethom hefyd ymateb yn gyflym ac yn gadarn i bryderon ynghylch twyll mewn canolfan brawf gyfrifiadurol; a gwnaethom y penderfyniad digynsail i dynnu cymeradwyaeth yn ôl i raglen hyfforddi bydwreigiaeth i gadw menywod, babanod a theuluoedd yn ddiogel.

Ni chyrhaeddwyd ein targed ar gyfer gwella'r amser y mae'n ei gymryd i reoli pryderon am weithwyr nyrsio a bydwreigiaeth proffesiynol sy'n cael eu hatgyfeirio atom ac sy'n mynd drwy ein prosesau addasrwydd i ymarfer. Roedd hyn yn hynod siomedig - addasrwydd i ymarfer yw'r brif swyddogaeth reoleiddio i ni, ac rydym yn ymwybodol iawn o'r effaith y mae hyn yn ei gael ar bawb sy'n ymwneud â'r prosesau hyn; atgyfeirwyr, gweithwyr proffesiynol neu gydweithwyr yr NMC. O ganlyniad, rydym yn gwneud y buddsoddiad mwyaf mewn degawd i wella ein dull diogel a chyflym o drin yr atgyfeiriadau a gawn.

Codwyd pryderon hefyd am ein diwylliant a'n heffeithiolrwydd fel rheolydd. Rydym yn cymryd y pryderon hyn o ddifrif ac wedi sefydlu ymchwiliadau annibynnol i'w harchwilio'n drylwyr. Byddwn yn cyflwyno adroddiad tryloyw ar y canfyddiadau ac yn gweithredu ar yr argymhellion a wnaed yn ystod 2024 a thu hwnt.

Mae'r dirwedd iechyd a gofal cymdeithasol gyfoes ar draws pedair gwlad y DU yr ydym yn gweithredu ynddynt yn cyflwyno amgylchedd cynyddol gymhleth a heriol. Mae pwysau gweithlu, gweithredu diwydiannol eang, poblogaeth sy'n heneiddio a galw cynyddol am iechyd a gofal cymdeithasol i gyd yn ffactorau sy'n effeithio ar y gweithwyr proffesiynol ar ein cofrestr, y cyhoedd sy'n cyrchu ac yn derbyn gofal a gwaith yr NMC.

Mae hyn oll yn golygu bod angen cynllun corfforaethol realistig arnom sy'n cefnogi'r cyhoedd, y gweithwyr proffesiynol ar ein cofrestr sy'n darparu eu gofal, a'n cydweithwyr i wneud y gwaith gorau posibl.

## Myfyrio ac ail-gydbwyso ein gwaith

Pan fydd y cyd-destun yn newid, felly hefyd y mae'r cynllun. Rydym wedi ystyried yn ofalus y ffordd orau o ymateb i'r heriau hyn drwy ailffocysu ein hymdrechion i adeiladu'r gallu cywir i ddarparu'r gorau i bobl dros y ddwy flynedd nesaf. Rydym yn gwneud buddsoddiadau sylweddol mewn addasrwydd i ymarfer i wella amseroldeb ac ansawdd ein penderfyniadau. Rydym yn canolbwyntio ar newid ein diwylliant i fod yn sefydliad dysgu sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn ac yn addas ar gyfer y dyfodol. Bydd hyn yn ein gwneud yn rheolydd gwell; gwella sut rydym yn amddiffyn y cyhoedd drwy gefnogi gofal nyrsio a bydwreigiaeth diogel, effeithiol a charedig sy'n gwella iechyd a lles pawb mewn byd sy'n newid.

Rydym wedi ailosod ein cynlluniau corfforaethol i ganolbwyntio ar bum canlyniad blaenoriaethol dros y ddwy flynedd nesaf a fydd yn ein cefnogi i wireddu'r weledigaeth hon.

**Byddwn yn:**

1. datblygu penderfyniadau addasrwydd i ymarfer mewn ffordd amserol a chynaliadwy sy'n cadw pobl yn ddiogel
2. adeiladu diwylliant dysgu agored, cynhwysol a pherfformiad uchel gyda thegwch a chydraddoldeb yn ganolog iddo
3. parhau i foderneiddio ein systemau a'n prosesau i fod yn addas ar gyfer y dyfodol
4. llywio a chefnogi gweithrediad strategaethau gweithlu ar draws pedair gwlad y DU yn helpu gweithwyr nyrsio a bydwreigiaeth proffesiynol i ddarparu gofal diogel, caredig ac effeithiol
5. cryfhau prosesau a gweithdrefnau i ddiogelu uniondeb ein cofrestr fel y gall y cyhoedd barhau i fod â hyder yn ansawdd y gofal y maent yn ei dderbyn.

Er mwyn cyflawni'r canlyniadau hyn, rydym wedi gohirio neu leihau cwmpas rhai prosiectau arfaethedig i ryddhau capasiti ac adnoddau. Mae'r rhain yn cynnwys gohirio cynlluniau i adnewyddu ein gwefan ac adnewyddu ein swyddfeydd yn Portland Place a gohirio datblygiad strategaeth newydd ar gyfer 2025.

## Gweithio mewn partneriaeth a gwella ein rhyngweithio â phobl

Yn ganolog i lwyddiant y cynllun hwn mae ein perthynas barhaus â'n partneriaid a'r gweithwyr proffesiynol ar ein cofrestr ar draws pedair gwlad y DU. Mae'n hanfodol eu bod yn parhau i lunio ein gwaith, yn dweud wrthym lle nad ydym yn gwneud pethau'n iawn, ac yn gweithio gyda ni ar heriau a chyfleoedd a rennir.

Yr un mor bwysig yw llais y cyhoedd. Rydym wedi ymgorffori cyfleoedd ymgysylltu a chynnwys y cyhoedd gan gynnwys ymgynghoriadau a grwpiau ffocws, fel y gallwn barhau i glywed lleisiau pobl o gefndiroedd a chymunedau gwahanol. Rydym yn arbennig o ddiolchgar i'n Fforwm Llais y Cyhoedd, sy'n helpu i lunio ein prosiectau strategol. Mae aelodau'r fforwm yn dod o bedair gwlad y DU ac mae rhai yn byw gyda chyflyrau hirdymor, sy'n golygu eu bod yn rhyngweithio â gweithwyr proffesiynol ar ein cofrestr yn rheolaidd. Mae ganddynt oll ddiddordeb mewn iechyd a gofal ac maent yn gwneud cyfraniad amhrisiadwy i'n helpu i wreiddio ein safonau a gwella profiad pobl o wasanaethau.

Gwyddom hefyd fod gennym fwy i'w wneud i wella ein rhyngweithio â phobl, boed yn weithwyr proffesiynol neu'r cyhoedd sy'n ymwneud ag addasrwydd i ymarfer, y rhai sy'n codi cwynion gyda ni neu'n galw am gyngor neu gymorth ar agweddau eraill ar ein gwaith rheoleiddio. Wrth wneud hynny, byddwn yn parhau i adeiladu ar waith da ein gwasanaeth cymorth cyhoeddus, i wneud i bob rhyngweithiad gyfrif.

## Diolch

Yn erbyn cefndir heriol, rydym yn parhau i fod yn ddiolchgar am ymroddiad ein cydweithwyr a'r gweithwyr proffesiynol ar ein cofrestr; ymgysylltiad, cydweithrediad a mewnwelediad amhrisiadwy ein partneriaid a'r cyhoedd, a gwaith ein Cyngor ac Aelodau Cyswllt.

Rydym wedi gwneud ymrwymiad cadarn i barhau i wrando, dysgu a herio ein hunain er mwyn gwella. Byddwn yn canolbwyntio'n fawr ar y blaenoriaethau yn y cynllun hwn er budd pobl a chymunedau ar draws y pedair gwlad yn awr, ac yn y dyfodol.

**Andrea Sutcliffe**
Prif Weithredwr a Chofrestrydd

**Syr David Warren**
Cadeirydd y Cyngor

# Pwy ydym ni

Ein gweledigaeth yw ymarfer nyrsio a bydwreigiaeth diogel, effeithiol a charedig sy'n gwella iechyd a lles pawb.

Fel rheoleiddiwr annibynnol dros 808,000 o nyrsys a bydwragedd yn y DU a chymdeithion nyrsio yn Lloegr, mae gennym rôl bwysig i'w chwarae i wireddu'r weledigaeth hon.

Rydyn ni yma i amddiffyn y cyhoedd drwy gynnal safonau nyrsio a bydwreigiaeth proffesiynol uchel, y mae gan y cyhoedd hawl i'w disgwyl. Dyna pam rydym yn gwella'r ffordd rydym yn rheoleiddio, yn gwella ein cymorth i gydweithwyr, gweithwyr proffesiynol a'r cyhoedd, ac yn gweithio gyda'n partneriaid i ddylanwadu ar ddyfodol iechyd a gofal cymdeithasol.

# Ein rôl

Ein rôl graidd yw **rheoleiddio**. Rydym yn gosod ac yn hyrwyddo safonau addysg a phroffesiynol uchel ar gyfer nyrsys a bydwragedd ledled y DU, a chymdeithion nyrsio yn Lloegr ac yn sicrhau ansawdd eu rhaglenni addysg. Rydym yn cynnal cywirdeb y gofrestr o'r rhai sy'n gymwys i ymarfer. Ac rydym yn ymchwilio i bryderon am weithwyr proffesiynol - rhywbeth sy'n effeithio ar ychydig iawn o bobl ar ein cofrestr bob blwyddyn.

Er mwyn rheoleiddio'n dda, rydym yn **cefnogi** gweithwyr nyrsio a bydwreigiaeth proffesiynol a'r cyhoedd. Rydym yn creu adnoddau ac arweiniad sy'n ddefnyddiol drwy gydol gyrfaoedd gweithwyr proffesiynol, gan eu helpu i gyflawni ein safonau ymarfer a mynd i'r afael â'r heriau y maent yn eu hwynebu. Rydym yn gweithio ar y cyd fel bod pawb yn teimlo eu bod wedi'u hymgysylltu a'u grymuso i lunio ein gwaith.

Rydym yn gweithio gyda'n partneriaid i fynd i'r afael â phryderon cyffredin, rhannu ein data, mewnwelediad a dysg, i **ddylanwadu** a llywio penderfyniadau a helpu i ysgogi gwelliant mewn iechyd a gofal cymdeithasol i bobl a chymunedau.

# Ein canlyniadau blaenoriaethol

Rheoleiddio

Cefnogi

Dylanwadu

Rydym wedi nodi pum canlyniad blaenoriaethol rhwng nawr a 2026 i lunio ein gwaith a fydd yn ein helpu i wireddu ein gweledigaeth ar gyfer nyrsio a bydwreigiaeth a dod yn NMC gwell. Yn y pen draw, bydd pobl sy’n defnyddio gwasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol yn cael profiadau gwell a mwy diogel os byddwn yn gwneud newidiadau a gwelliannau hanfodol i feysydd allweddol o’n gwaith, ein diwylliant a sut rydym yn rhyngweithio â phobl.

# 1

# Datblygu atgyfeiriadau addasrwydd i ymarfer mewn ffordd ddiogel ac amserol

**Rheoleiddio**

Rydym am i'n proses addasrwydd i ymarfer fod yn amserol, yn ystyriol ac yn syml i bawbsy'n gysylltiedig. Mae angen i atgyfeirwyr a gweithwyr proffesiynol gael delio â'u hachosion yn effeithiol ac mor gyflym a diogel â phosibl; dylai cyflogwyr ddeall pryd i atgyfeirio eu gweithwyr, a dylai ein pobl deimlo'n falch o weithio i'r NMC a gallu gwneud gwahaniaeth cadarnhaol.

Byddwn yn newid galluoedd a systemau'n sylweddol drwy sefydlu cynllun 18 mis newydd gyda'r buddsoddiad mwyaf mewn addasrwydd i ymarfer ers degawd. Bydd hyn yn gwella sut rydym yn gweithio fel y gallwn wneud penderfyniadau o ansawdd i gadw pobl yn ddiogel mewn ffordd sy'n gynaliadwy ar gyfer y dyfodol.

## Byddwn yn:

- gweithio gyda chyflogwyr a'r cyhoedd i sicrhau bod yr atgyfeiriadau a gawn yn briodol, tra'n cryfhau cyngor clinigol a diogelu ar gyfer ein penderfynwyr er mwyn sicrhau bod penderfyniadau cywir yn cael eu gwneud i gadw'r cyhoedd yn ddiogel
- gwella amseroldeb ac ansawdd ein penderfyniadau i sicrhau bod y rhai ar ein cofrestr yn addas i ymarfer yn ddiogel ac yn broffesiynol. Byddwn yn gwneud hyn drwy:
  - cynyddu nifer y penderfyniadau a wnawn yn ystod cam sgrinio ein proses
  - dod â mwy o'n gwrandawiadau i ganolfannau gwrandawiadau i gynyddu effeithlonrwydd a gwella ein cymorth llesiant a diogelu i bawb sy'n gysylltiedig
  - gwneud y mwyaf o effaith ein contractau Gwasanaethau Cyfreithiol newydd, allanoli gwaith priodol a galluogi ein timau i gynnal mwy o ymchwiliadau a pharatoi ar gyfer achosion a'u cyflwyno
  - datblygu dull sicrhau ansawdd sy'n grymuso cydweithwyr i sicrhau bod penderfyniadau ar gynnydd achosion yn ddiogel, yn amserol ac o'r ansawdd cywir, gan ystyried dysgu er mwyn gwella'r broses o wneud penderfyniadau yn y dyfodol.
- datblygu system newydd ar gyfer rheoli i fod ar waith erbyn 2026. Bydd hyn yn ein galluogi i symud achosion ymlaen yn gyflymach ac yn fwy diogel; rhyngweithio'n fwy effeithiol â'r cyhoedd, gweithwyr proffesiynol a chyflogwyr ac, yn y tymor hir, lleihau costau
- sicrhau bod gennym y nifer cywir o bobl fedrus yn gweithio mewn ffordd drefnus i gefnogi ein gwaith ar draws addasrwydd i ymarfer. Bydd hyn yn gwella perfformiad, atebolrwydd a dargadw, gan arwain at brofiad mwy cyson ar gyfer cwsmeriaid i'r rhai sy'n ymwneud â'n proses addasrwydd i ymarfer.

# 2

# Adeiladu diwylliant dysgu cynhwysol, perfformiad uchel

**Rheoleiddio**

**Cefnogi**

Rydym eisiau diwylliant agored, cynhwysol sy'n rhydd rhag gwahaniaethu, sy'n hyrwyddo cydraddoldeb, yn dathlu amrywiaeth, yn hyrwyddo cynhwysiant, ac yn cyd-fynd â'n gwerthoedd o garedigrwydd, tegwch, uchelgais a chydweithio. Mae hyn yn allweddol i alluogi pawb i berfformio ar eu gorau a dysgu a thyfu yn eu rolau, fel ein bod yn cynnal safonau proffesiynol ar gyfer gofal nyrsio a bydwreigiaeth a gwella canlyniadau i bobl sy'n defnyddio gwasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol.

**Byddwn yn:**

- gweithredu ar ddysgu o ymchwiliadau annibynnol i bryderon a godwyd am ein penderfyniadau rheoleiddio a phobl a diwylliant, gan gynnwys diogelwch cydweithwyr i godi llais. Bydd y newidiadau hyn yn cefnogi datblygu diwylliant dysgu agored oddi mewn yr NMC a meithrin ymddiriedaeth a hyder ein cydweithwyr, y cyhoedd a gweithwyr proffesiynol yn ein gallu i reoleiddio'n dda
- nodi meysydd i'w dysgu a'u gwella yn y modd yr ydym yn rheoleiddio trwy ein hymwneud ag ymholiadau allanol a gweithredu ar unrhyw argymhellion sy'n codi. Bydd hyn yn sicrhau ein bod yn cyflawni ein cyfrifoldebau rheoleiddio yn effeithiol ac yn diogelu'r cyhoedd
- gwella'r ffordd yr ydym ar y cyd ac yn systematig yn casglu dysgu fel sefydliad, gan gynnwys ein dull o adrodd am ddigwyddiadau, i ysgogi gwelliannau cynaliadwy yn y ffordd rydym yn gweithio. Bydd hyn yn gwella ein prosesau rheoleiddio; yn gwella sut rydym yn amddiffyn y cyhoedd, yn cefnogi ein gweithwyr proffesiynol, ac yn rhyngweithio â phawb sy'n dod i gysylltiad â ni
- cyflawni ein Cynllun Cydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysiant (EDI) i sicrhau profiadau a chanlyniadau tecach i'r bobl sy'n gweithio i ni, y gweithwyr proffesiynol rydym yn eu rheoleiddio a phobl sy'n defnyddio gwasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol. Byddwn yn gwneud hyn drwy wella cysondeb a thegwch yn ein penderfyniadau rheoleiddio; defnyddio ein data amrywiaeth ar gyfer gweithwyr proffesiynol i weithio gyda phartneriaid i ddylanwadu ar ffyrdd o weithio ar draws y sector a gwella ein prosesau mewnol fel y gall ein cydweithwyr a phawb rydym yn rhyngweithio â nhw ffynnu heb rwystrau
- asesu sampl o achosion addasrwydd i ymarfer trwy ein hadolygiad Uchelgeisiol ar gyfer Newid nesaf i ddeall i ba raddau, os o gwbl, rhagfarn neu wahaniaethu yn ein penderfyniadau yn esbonio gwahaniaethau mewn cynnydd a chanlyniadau achosion ar gyfer grwpiau penodol. Bydd yr adolygiad yn nodi cyfleoedd i wella ein polisïau, ein canllawiau, a'n prosesau er mwyn sicrhau'r tegwch a'r cysondeb mwyaf o ganlyniad.

# 3

# Moderneiddio ein systemau, offer, polisïau a phrosesau

**Rheoleiddio**

**Cefnogi**

Byddwn yn sicrhau rheoleiddio gwell a mwy diogel er budd y cyhoedd gyda chofrestr well sy'n haws ei defnyddio a'i deall. Bydd ein systemau digidol rheoleiddiol yn cael eu diweddaru, gan ei gwneud yn haws i bobl gysylltu â ni ac i gydweithwyr yr NMC wneud eu gwaith, gan gefnogi gweithwyr nyrsio a bydwreigiaeth proffesiynol i ddarparu gofal diogel sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn. Bydd gan bawb hyder a ffydd ein bod yn cadw eu gwybodaeth yn ddiogel.

**Byddwn yn:**

- gwella effeithlonrwydd a diogelwch ein systemau, offer mewnol a phrosesau drwy symud i lwyfan technoleg ddigidol integredig i gyflwyno a chynnal y gofrestr. Bydd hyn yn ei gwneud yn haws i gydweithwyr yr NMC gyflawni eu rolau gan arwain at well cymorth i weithwyr nyrsio a bydwreigiaeth proffesiynol i ddarparu gofal diogel sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn
- cyflawni ein Cynllun Gwaith Diogelu newydd i sicrhau bod cydweithwyr yn gallu cyflawni eu rolau'n ddiogel wrth ymgysylltu ag eraill neu wrth drin data sensitif, yn unol â rhwymedigaethau'r Comisiwn Elusennau
- gweithio gyda'r Adran Iechyd a Gofal Cymdeithasol i gyflwyno deddfwriaeth hyblyg, fodern sy'n galluogi rheoleiddio gwell a mwy diogel i'r cyhoedd. Bydd yn golygu bod gennym gofrestr sy'n gliriach ac yn haws ei deall; ein galluogi i weithredu'n gyflymach i amddiffyn y cyhoedd os na all rhywun fodloni ein Cod a'n safonau; cryfhau ein gallu i ymyrryd pan fydd gennym bryderon am ansawdd addysg nyrsio neu fydwreigiaeth, a sicrhau y gallwn atal pobl rhag galw eu hunain yn nyrsys pan nad ydynt wedi cofrestru gyda
- adolygu ein Strategaeth Ariannol i sicrhau ei bod yn cefnogi gwelliannau yn ein prosesau rheoleiddio, cyflawni ein cynllun corfforaethol yn ehangach a'i bod yn gynaliadwy ar gyfer y dyfodol.

# 4

# Cyfrannu at y strategaethau gweithlu a chefnogi gweithwyr proffesiynol yn y pedair gwlad

Rheoleiddio

Cefnogi

Dylanwadu

Bydd partneriaid a’r sector ehangach yn elwa o’n dirnadaeth ac yn gallu ei ddefnyddio i lywio a gweithredu cynlluniau i fynd i’r afael â heriau’r gweithlu a gwella gofal i bobl. Bydd y ffordd rydym yn rheoleiddio yn helpu gweithwyr nyrsio a bydwreigiaeth proffesiynol i addasu i heriau’r dyfodol, gan gynnwys anghenion newidiol pobl sy’n defnyddio gwasanaethau.

## Byddwn yn:

- gweithredu'r opsiynau y cytunwyd arnynt gan y Cyngor ym mis Mawrth 2024 i ddatblygu cyfuniad o ddulliau i reoleiddio ymarfer uwch ymhellach, i amddiffyn y cyhoedd a gwella cysondeb a safonau ar gyfer pobl sy'n derbyn gofal
- cwblhau'n llwyddiannus ein hadolygiad o ddysgu ymarfer, i sicrhau bod myfyrwyr yn parhau i gael eu cefnogi i gyflawni ein safonau mewn amgylchedd dysgu cynhwysol, gan ennill y wybodaeth a'r sgiliau sydd eu hangen i ddarparu'r gofal gorau posibl i bobl a chymunedau
- gweithio gyda Llywodraeth Cymru a'r Adran Iechyd a Gofal Cymdeithasol i ymestyn y broses o reoleiddio cymdeithion nyrsio yng Nghymru. Bydd hyn yn cefnogi ehangu mynediad i nyrsio a gwella ansawdd, diogelwch a chysondeb y gofal a ddarperir i bobl sy'n defnyddio gwasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol yng Nghymru
- cyhoeddi ein hadroddiad blynyddol Sbotolau, cofrestru, ailddilysu, addasrwydd i ymarfer, ac adroddiadau data EDI. Bydd ein dirnadaeth yn llywio ac yn dylanwadu ar gynllunio gweithlu'r dyfodol ar draws y DU, ein cynllun gwella addasrwydd i ymarfer a blaenoriaethau allweddol eraill
- gosod y sylfaen ar gyfer adnewyddu Cod yr NMC a'r broses ailddilysu sy'n ganolog i gefnogi gweithwyr proffesiynol i ddatblygu a gwella eu hymarfer a darparu gofal diogel, caredig ac effeithiol mewn tirwedd iechyd a gofal cyfnewidiol.

# 5

# Cryfhau uniondeb y gofrestr

**Rheoleiddio**

**Cefnogi**

Bydd gan y cyhoedd a'r gweithwyr proffesiynol ar ein cofrestr ymddiriedaeth a hyder yn ansawdd addysg, sgiliau a chymhwysedd nyrsys, bydwragedd a chymdeithion nyrsio cofrestredig i amddiffyn y cyhoedd a darparu gofal diogel, effeithiol a charedig i bobl a'u cymunedau.

**Byddwn yn:**

- gwella ein prosesau a'n rheolaethau cofrestru rhyngwladol ac adeiladu ar wersi a ddysgwyd o achosion o dwyll a llwgrwobrwyo yn y gorffennol i sicrhau bod gan bob gweithiwr proffesiynol sydd wedi'i addysgu'n rhyngwladol ar ein cofrestr y sgiliau a phrofiad cywir
- gweithio gyda chynghorydd annibynnol i adolygu a chryfhau ein sicrwydd ansawdd addysg, gan sicrhau bod pob rhaglen addysg yn bodloni ein safonau a bod myfyrwyr yn datblygu'r sgiliau a'r wybodaeth gywir i ddarparu gofal trwy gydol eu gyrfaoedd. Bydd yr adolygiad yn ymdrin â'r gwersi a ddysgwyd o'n hymateb i bryderon a godwyd gan arwain at ddileu rhaglen bydwreigiaeth Prifysgol Eglwys Crist Caergaint.

Cyngor
Nyrsio a
Bydwreigiaeth

23 Portland Place,
Lludain W1B 1PZ
+44 20 7637 7181
www.nmc.org.uk
@nmcnews @nmcuk

Rheoleiddiwr nyrsio a bydwreigiaeth Cymru, Lloegr, yr Alban a Gogledd Iwerddon Elusen gofrestredig yng Nghymru a Lloegr (1091434) ac yn yr Alban (SC038362).